Dechrau'n Deg Flying Start

Magu plant. Rhowch amser iddo. llyw.cymru/rhowchamseriddo
Parenting. Give it time. gov.wales/giveittime

Siarad Gyda Fi Talk With Me

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC) Dechrau'n Deg

## Yn egluro beth ddylai ymarferwyr Dechrau'n Deg ei wneud i sicrhau eu bod yn cefnogi datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Mawrth 2024

OGL © Hawlfraint y Goron 2024 WG49494 ISBN digidol 978-1-83577-687-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**Cynnwys**


1. **Ynglŷn â'r canllawiau hyn** .......... 4

1.1 Cynulleidfa .......... 4

1.2 Sut i ddefnyddio'r canllawiau .......... 4

2. **Cyflwyniad** .......... 5

2.1 Dechrau'n Deg .......... 5

2.2 Ehangu .......... 5

2.3 Cynllun Cyflawni Siarad Gyda Fi .......... 6

3. **Diben craidd** .......... 7

4. **Sail tystiolaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu** .......... 8

4.1 Pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu .......... 8

4.2 Yr Amgylchedd Dysgu yn y Cartref .......... 10

4.3 Dwyieithrwydd .......... 12

4.4 Cyffredinrwydd anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu .......... 14

4.5 Effaith tymor hir anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu .......... 16

5. **Y gofyniad ar gyfer Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn Dechrau'n Deg** .......... 17

5.1 Gofyniad .......... 17

5.2 Cyfrifoldebau .......... 18

5.3 Goruchwyliaeth broffesiynol .......... 19

6. **Nodi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, neu sy'n wynebu risg o ddatblygu anghenion o'r fath** .......... 20

6.1 Adolygiad o sgrinio iaith gynnar .......... 20

6.2 Ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar .......... 20

6.3 Gwybodaeth, sgiliau ac ymarfer ymarferwyr wrth nodi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, neu sy'n wynebu risg o ddatblygu anghenion o'r fath 23

6.4 Rôl Therapyddion Lleferydd ac Iaith wrth nodi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, neu sy'n wynebu risg o ddatblygu anghenion o'r fath .......... 24

7. **Ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar lefelau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'u targedu** .......... 25

7.1 Lefelau ymyriadau .......... 25

7.2 Ymyriadau ar lefel gyffredinol .......... 26

7.3 Ymyriadau ar lefelau poblogaeth ac wedi'u targedu .......... 29

7.4 Ymyriadau ar lefel arbenigol ..... 30
7.5 Gwybodaeth, sgiliau ac ymarfer ymarferwyr er mwyn rhoi ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar waith ..... 31
7.6 Rôl Therapyddion Lleferydd ac Iaith wrth roi ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar waith ..... 32
8. **Ystyriaethau statudol** ..... 34
8.1 Anghenion Dysgu Ychwanegol ..... 34
8.2 Ystyriaethau gwrth-hiliaeth a diwylliannol ..... 34
8.3 Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a phlant sy'n derbyn gofal ..... 35
9. **Gwerthuso a monitro** ..... 36
10. **Crynodeb** ..... 37
11. **Rhestr dermau** ..... 38
12. **Adnoddau** ..... 41
13. **Cyfeiriadau** ..... 42

## 1. Ynglŷn â'r canllawiau hyn

### 1.1 Cynulleidfa

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at yr unigolion hynny sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau sy'n hyrwyddo ac yn hwyluso datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu o fewn Dechrau'n Deg.

Mae'n bosibl y bydd elfennau o'r canllawiau hyn hefyd yn berthnasol i'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant rhwng 0 a 4 oed ac 11 mis y tu allan i Dechrau'n Deg ac sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i blant ar lefelau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'u targedu er mwyn helpu i ddatblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu.

### 1.2 Sut i ddefnyddio'r canllawiau

Bwriedir i'r ddogfen hon roi arweiniad i wasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg. Mae'r crynodeb yn anelu at helpu'r darllenydd i ddod o hyd i'r adrannau sydd fwyaf perthnasol i'w ymarfer ef neu hi.

Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â chanllawiau eraill Llywodraeth Cymru sy'n cyfeirio at Dechrau'n Deg, gan gynnwys canllawiau penodol am elfennau craidd eraill y rhaglen.

**Mae'r testun trwm yn y blychau yn tynnu sylw at argymhellion allweddol sy'n rhan o'r canllawiau.**

## 2. Cyflwyniad

### 2.1 Dechrau'n Deg

Dechrau'n Deg yw rhaglen Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru sydd wedi'i thargedu at deuluoedd â phlant dan 4 oed yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae elfennau craidd y rhaglen yn adlewyrchu'r dystiolaeth sy'n gysylltiedig â meysydd cymorth a all arwain ddeilliannau cadarnhaol i blant a theuluoedd, gan gynnwys:

- gwasanaeth estynedig gan ymwelwyr iechyd
- mynediad at gymorth rhianta
- gofal plant rhan amser o ansawdd wedi'i ariannu ar gyfer plant 2 oed
- cymorth o ran datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu

### 2.2 Ehangu

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i fynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn 2 oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.


Dechreuodd cam cyntaf y broses ehangu ym mis Medi 2022, ac roedd yn cynnwys pedair elfen Dechrau'n Deg. Bydd cam 2 yn canolbwyntio ar ddarparu elfen gofal plant ansawdd uchel Dechrau'n Deg i hyd yn oed mwy o blant 2 oed yn ystod 2023-24 a 2024-25 (Llywodraeth Cymru, 2022b).

Drwy gydol y broses o ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i nodi materion fel mwy o atgyfeiriadau at wasanaethau eraill. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n hyblyg gyda gwasanaethau lleol i'w helpu i fodloni unrhyw ofynion ychwanegol sy'n codi.

## 2.3 Cynllun Cyflawni Siarad Gyda Fi

Ym mis Tachwedd 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru Siarad Gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y Cynllun Cyflawni') (Llywodraeth Cymru, 2020b). Mae'r Cynllun Cyflawni yn anelu at sicrhau gwelliant yn y ffordd y caiff plant rhwng 0 a 4 oed 11 mis yng Nghymru eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r Cynllun Cyflawni yn cynnwys pump amcan (Ffigur 1).

Dylid darllen y canllawiau lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg hyn ar y cyd â'r Cynllun Cyflawni ac adnoddau Siarad Gyda Fi i ymarferwyr.




*Ffigur 1. Pump Amcan y Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu.*

## 3. Diben craidd

Mae'r canllawiau hyn yn darparu'r egwyddorion sylfaenol y dylid eu defnyddio i ddatblygu ac i ddarparu gwasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg er mwyn cefnogi teuluoedd ac ymarferwyr.

Defnyddir y term ‘ymarferydd’ drwy gydol y canllawiau hyn i olygu unrhyw aelod o staff sy'n gweithio mewn unrhyw rinwedd gyda phlant sy'n defnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gweithio ym maes Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, Ymwelwyr Iechyd, Bydwragedd, Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd ac aelodau o'r tîm Datblygiad Iaith Cynnar (ymhlith eraill).

Bwriedir i'r ddogfen roi arweiniad ar y canlynol:

- y gofyniad ar gyfer Therapyddion Lleferydd ac Iaith Dechrau'n Deg a rôl yr unigolion hynny
- gwella gwybodaeth, sgiliau ac ymarfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ymarferwyr
- nodi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, neu sy'n wynebu risg o ddatblygu anghenion o'r fath
- cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar lefelau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'u targedu
- mesur deilliannau er mwyn dangos effaith cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.

## 4. Sail tystiolaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu

**Dylai pob ymarferydd Dechrau'n Deg ar draws pob hawl ddeall datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a gallu rhoi cymorth priodol, neu gyfeirio unigolion at gymorth priodol.**

### 4.1 Pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu

Iaith yw'r nodwedd unigryw sy'n ein diffinio ni fel bodau dynol. Dyma'r sgìl allweddol rydym yn ei defnyddio i lywio ein dealltwriaeth o'r byd ac i drosglwyddo ein diwylliant o un genhedlaeth i'r nesaf. Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu datblygedig yn holl bwysig er mwyn gallu meithrin a chynnal cydberthnasau cymdeithasol â theulu, cyfoedion a ffrindiau. Mae'r sgiliau hyn yn hanfodol er mwyn dysgu yn yr ysgol yn y dyfodol.

Cydnabu 'The Bercow Report: A Review of services for Children and Young People with Speech, Language and Communication needs' (Y Goron, 2008) bwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu i **bob** plentyn. Daeth adroddiad 'Bercow: 10 years on' (Y Goron, 2018) i'r casgliad er bod rhywfaint o gynnydd cadarnhaol wedi'i wneud ers cyhoeddi adroddiad 2008, fod cryn dipyn i'w wneud o hyd. Roedd rhai o'r canfyddiadau a'r argymhellion allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Mae angen strategaeth arnom i newid y system: mae dulliau gweithredu integredig sy'n cynnwys y system gyfan yn hanfodol er mwyn cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Nid yw'r dystiolaeth yn cael ei defnyddio: ni chaiff gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio [er mwyn cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu] ei defnyddio'n effeithiol
- Mae nodi achosion yn gynnar ac ymyrryd yn gynnar yn hanfodol.

Er bod yr argymhellion wedi'u cyfeirio at Lywodraeth y DU, mae llawer o'r canfyddiadau yr un mor berthnasol i ni yng Nghymru.

Nododd '*Early Language Delays in the UK*' (Law et al, 2013) bump egwyddor a oedd yn ymwneud yn benodol ag iaith yn y blynyddoedd cynnar, fel a ganlyn:

- *Communication is key to the fostering of life chances in early childhood. Everyone in the child's environment has a role to play in fostering the child's communication skills. This starts at birth and includes immediate and extended family, and potentially a wide range of professionals, health visitors, speech and language therapists, early educators, teachers, psychologists, etc.*

- *The importance of early communication skills and their implications for the child's social and educational development across the early years and beyond need to be understood by all parents.*

- *All professionals need to be aware of how to identify early language delays and confident about what they can do to enhance language skills.*

- *We need to scale up and roll out interventions that have been shown to work and test their value across whole populations and over an appropriate length of time.*

- *We need to sustain the pressure on policymakers to improve services for the child who is language-delayed, especially in the very early years (i.e., before 3 years)*

Mae adroddiad y Sefydliad Ymyriadau Cynnar (EIF) *Language as a Child Wellbeing Indicator* (EIF, 2017) yn tynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu o ran eu heffaith ar bob agwedd ar ddatblygiad heblaw datblygiad corfforol. Mae'r adroddiad yn nodi sail tystiolaeth gynyddol, gan ddangos y cysylltiadau rhwng datblygiad iaith gynnar a deilliannau yn ddiweddarach mewn bywyd. Rhoddir pwyslais penodol ar iechyd meddwl, cyflogaeth a'r tebygolrwydd y bydd unigolion yn dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y risg ganlynol: heb bwyslais ar iaith y plentyn, caiff cylchoedd tlodi rhwng cenedlaethau eu gwaethygu. Mae'r adroddiad yn nodi bod sgiliau iaith gynnar yn un o'r prif ddangosyddion ar gyfer llesiant plant, gan wneud naw argymhelliad. Y trydydd

argymhelliad yw “*child language should be included as part of a national strategy for promoting social mobility*”.

## 4.2 Yr Amgylchedd Dysgu yn y Cartref

**Dylai ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu a gaiff eu rhoi ar waith fel rhan o Dechrau'n Deg gynnwys strategaethau i hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol ac ymatebol rhwng y rhiant a'r plentyn.**

Y ffactor pwysicaf yn ystod y blynyddoedd cynnar yw amgylchedd y plentyn, yn enwedig ansawdd a lefel y ‘sgwrsio’ y mae plant yn ei brofi gyda'u rhieni, eu teuluoedd, eu cyfoedion a'u darparwyr gofal plant. Nodir bod ffactorau genetig yn chwarae rhan gynyddol wrth i blant gyrraedd plentyndod canol (Law et al, 2013).

Rhieni[1] yw athrawon cyntaf baban (neu blentyn ifanc). Mae'r blynyddoedd rhwng y cyfnod cenhedlu a 3 oed yn allweddol o ran datblygu gallu cynyddol plentyn ifanc i gyfathrebu. Dengys tystiolaeth mai'r dylanwad mwyaf ar lefel datblygiad iaith plentyn yw'r ffordd yr ymatebwyd iddo ac y siaradwyd ag ef (Tamis-LeMonda et al, 2001). Po fwyaf yr ysgogiad y bydd babanod a phlant ifanc yn ei gael o ran chwarae gyda nhw, siarad â nhw, ymateb iddyn nhw a darllen iddyn nhw, y gorau fydd eu gallu ieithyddol ac, yn ddiweddarach, eu llythrennedd. Dengys gwaith ymchwil fod y 1,001 o ddiwrnodau cyntaf (o'r beichiogi hyd at 2[il] ben-blwydd plentyn) yn arbennig o bwysig am y rhesymau canlynol:

*“[…] Construction of the basic architecture of the brain begins before birth. More than a million new neural connections are formed every second in the first year of a baby’s life. Sensory pathways for basic functions like vision and hearing develop first, followed by early language skills and higher cognitive functions. This is the peak period of brain development.” (Llywodraeth DU, 2021)*

---

[1] defnyddiwyd ‘rhiant’ fel term llaw fer i gynnwys mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, llys-rieni, a theidiau a neiniau.

Mae iaith y rhan fwyaf o blant, sef y sgìl wybyddol hynod gymhleth, yn datblygu heb unrhyw anawsterau sylweddol. Maent yn dod i gysylltiad â modelau iaith cadarnhaol ac yn cael amrywiaeth o gyfleoedd cyfathrebu sy'n eu galluogi i feithrin eu sgiliau.

Mae cysylltiad agos rhwng sgiliau cyfathrebu gwael ac anfantais economaidd-gymdeithasol (APPG, 2013). Dengys gwaith ymchwil fod gan blant sy'n byw mewn tlodi yn y DU lefel anghymesur o anghenion iaith (Locke et al, 2002). Dengys astudiaethau o boblogaethau cyfan raddiant cymdeithasol clir ar gyfer datblygiad iaith, gyda phlant o'r grwpiau mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o feddu ar sgiliau iaith gwan na'r rhai hynny yn y grwpiau mwyaf breintiedig (Law et al, 2013).

Er bod byw mewn tlodi yn cydberthyn â chanlyniadau iaith tlotach, nid dyma'r unig ffactor sy'n dylanwadu ar ddatblygiad iaith. Mae ymchwil wedi dangos bod yr amgylchedd dysgu gartref yn cyfrannu at y gwahaniaethau hyn mewn gallu ieithyddol rhwng plant sy'n byw mewn ardaloedd incwm is ac incwm uwch. Er enghraifft, mae plant sy'n byw mewn tlodi yn tueddu i glywed llai o eiriau ac yn llai tebygol o fod yn berchen llyfr (Gilkerson et al., 2017; Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol, 2023).

Un o ganfyddiadau allweddol y llenyddiaeth yw nad yw byw mewn tlodi yn dylanwadu ar ddeilliannau tymor hir. Ymddygiad y rhiant, ac nid ei gefndir, sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ddeilliannau plentyn (Roulstone et al, 2011). Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu a hunan reoleiddio plant y mae eu rhieni yn ymateb iddynt ac yn defnyddio dulliau sgwrs ddibynnol (hynny yw, gwneud sylwadau ar ffocws diddordeb y plentyn) yn fwy datblygedig (Masek et al, 2023).

Mae helpu rhieni i ddatblygu amgylchedd cartref â phwyslais sylweddol ar gyfathrebu ac iaith yn hanfodol er mwyn gwella datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar plant. Nododd y prosiect 'The Effective Provision of Preschool Education' y canlynol – “*For all children, the quality of the home learning environment is more important for intellectual and social development than parental occupation, education or income”* (Sylva et al, 2004).

Edrychodd Roulstone et al (2011) ar nodweddion amgylchedd cyfathrebu'r plentyn fel faint o lyfrau a oedd ar gael i'r plentyn, pa mor aml roedd y plentyn yn mynd i'r llyfrgell, a oedd y rhieni yn addysgu amrywiaeth o weithgareddau a faint o deganau a

oedd ar gael. Gwnaethant ystyried y gydberthynas rhwng y ffactorau hyn a datblygiad iaith yn 2 oed ac yn 5 oed. Nodir bod y ffactorau amgylcheddol hyn yn bwysicach na mesur anfantais cyfansawdd.

Gall ansawdd y rhyngweithio rhwng oedolion a phlant ddylanwadu ar gyfleoedd plant i gyfathrebu a gall hwyluso datblygiad iaith (Zimmerman et al, 2009). Mae bod yn bartner cyfathrebu ymatebol yn annog cydberthynas ddwyochrog ac yn gwella'r gallu i greu sgwrs. Mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn annog amrywiaeth o strategaethau rhyngweithio rhwng oedolion a phlant. Mae'r rhain yn cynnwys annog y ddwy ochr i roi sylw i'r llall drwy ddilyn arweiniad y plentyn, modelu iaith gyfoethog, ailadrodd ac ymhelaethu ar yr hyn a ddywed y plentyn, a monitro nifer y cwestiynau a'r cyfarwyddiadau. Nodir ei bod yn hysbys bod y strategaethau hyn yn cefnogi plant sy'n datblygu'n unol â phatrwm nodweddiadol yn ogystal â'r rhai hynny ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Cydnabyddir yn eang yn y llenyddiaeth bod yr hyn y mae rhieni yn ei **wneud** i feithrin datblygiad iaith yn bwysicach na phwy ydynt (e.e.Roulstone et al, 2011).

## **4.3** Dwyieithrwydd[2]

**Dylid sicrhau bod pob teulu yn ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd o adeg geni'r plentyn. Dylai ymarferwyr wneud ymdrech ragweithiol i gynnig cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar yn newis iaith (ieithoedd) y teulu.**

Mae dwyieithrwydd yn cyfeirio at allu unigolyn i ddeall neu ddefnyddio dwy iaith neu fwy. Caiff unigolyn ei ddisgrifio fel unigolyn dwyieithog ni waeth beth fo lefel ei allu yn y naill iaith neu'r llall.  Nid yw'n fwy tebygol o gwbl y bydd gan deuluoedd dwyieithog blant ag anawsterau lleferydd ac iaith nag unrhyw deulu unieithog arall (Westman et al, 2008). Dylid sicrhau bod pob teulu yn ymwybodol o'r arferion gorau o ran egwyddorion rhyngweithio â babanod a phlant ifanc gan ddefnyddio mwy nag un

[2] Defnyddir y term 'dwyieithrwydd' yma i olygu dwyieithrwydd ac amlieithrwydd – h.y. dysgu dwy iaith neu fwy

iaith. Dylai ymarferwyr hefyd ystyried yr amrywiaeth eang o ieithoedd a diwylliannau ledled Cymru a bod yn sensitif tuag atynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011) yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a sefydlodd yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r Cynnig Rhagweithiol yn golygu y dylid gwneud ymdrech ragweithiol i gynnig cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar i deuluoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae strategaeth y Gymraeg, Cymraeg 2050, yn anelu at gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, gan gynnwys plant, i un filiwn erbyn 2050. Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i Chytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021b), y byddai darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn cael ei hehangu'n raddol gan roi pwyslais ar atgyfnerthu'r ddarpariaeth Gymraeg.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r adnoddau sgrinio iaith gynnar Cymraeg a Saesneg sy'n addas ar gyfer plant rhwng 0 a 4 oed ac 11 mis ledled Cymru. Dylid ystyried yr argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o Sgrinio Iaith Gynnar yn Addas ar gyfer Plant yng Nghymru o Enedigaeth hyd at 5 mlwydd oed (Llywodraeth Cymru, 2022c) wrth weithio gyda phlant dwyieithog:

*Argymhelliad 9*: Dylid casglu gwybodaeth am gefndir iaith plant a'u hamlygiad i bob un o'u hieithoedd gan fod hyn yn hanfodol i'r broses sgrinio ar gyfer plant dwyieithog.

*Argymhelliad 10*: Dylid asesu plant dwyieithog ac amlieithog ym mhob un o'u hieithoedd er mwyn cael darlun cywir o'u datblygiad iaith.

*Argymhelliad 11*: Dylid ystyried defnyddio asesiadau safonol gyda phlant dwyieithog ac amlieithog gyda gofal, a rhaid i ddehongli canlyniadau ystyried y potensial ar gyfer gogwydd diwylliannol ac ieithyddol.

*Argymhelliad 12*: Ni ddylid defnyddio data normadol ar gyfer plant uniaith fel cymhariaeth ar gyfer datblygiad iaith plant dwyieithog.

*Argymhelliad 13*: Ni ddylid defnyddio mesuriadau o eirfa mewn plant dwyieithog ac amlieithog oherwydd efallai na fyddant yn cynrychioli eu cymhwysedd yn gywir yn y naill iaith neu'r llall, ac maent yn debygol o fod yn amhriodol o'u cymharu â data normadol uniaith.

*Argymhelliad 14*: Dylid ymgynghori â rhieni ynghylch datblygiad lleferydd ac iaith eu plentyn (ym mhob iaith lle bo hynny'n berthnasol) a dylid trafod unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae dyletswydd ar wasanaethau cyhoeddus i ddilyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Legislation.gov.uk, 2010). Er mwyn amddiffyn unigolion rhag achosion o wahaniaethu, rhaid i wasanaethau sicrhau eu bod yn darparu addasiadau yn unol ag anghenion y rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (RCSLT) yn nodi y dylai gwasanaethau gynnig defnyddio iaith y cartref ar gyfer pob rhan o'r llwybr gofal, gan gynnwys mynediad at ddehonglwyr, cydweithwyr dwyieithog neu Therapydd Lleferydd ac Iaith dwyieithog sy'n meddu ar sgiliau iaith wedi'u paru'n ofalus ag iaith y cleient a'r teulu. Argymhellir hefyd y dylai gwasanaethau ddyrannu o leiaf ddwywaith yr amser i gleientiaid dwyieithog a'u teuluoedd, er mwyn cyflawni'r un deilliannau cadarnhaol â chleientiaid unieithog (RCSLT, 2018 - dim ond ar gael i aelodau Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (RCSLT).

Mae taflen ffeithiau am ddwyieithrwydd ar gael i rieni ac ymarferwyr ar wefan Siarad Gyda Fi.

## **4.4** Cyffredinrwydd anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

Amcangyfrifir bod tua 1.7 miliwn o blant yn y DU yn byw ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (Speech & Language UK, 2022). Mae gan 10% o'r holl blant yn y DU, neu hyd at dri phlentyn ym mhob ystafell ddosbarth, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu parhaus, tymor hir.

Mewn rhai rhannau o'r DU, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir anfantais gymdeithasol, mae hyd at 40% o blant yn dechrau'r ysgol ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu byrhoedlog (Law et al 2011).

Dengys canlyniadau cyfrifiad ysgolion Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023b) fod 20,906 o blant (4.4% o'r holl blant mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru) wedi'u nodi fel plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae hyn yn cyfateb i 33.1% o'r 63,089 o blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), sy'n golygu mai anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yw'r math mwyaf cyffredin o angen.

**4.5** Effaith tymor hir anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant yn cael effaith ar amrywiaeth eang o ddeilliannau, gan gynnwys llesiant, cyrhaeddiad addysgol, ymddygiad ac iechyd meddwl, a chyflogadwyedd. Mae Ffigur 2 yn crynhoi rhai o'r canfyddiadau sy'n dangos yr effeithiau hyn:




*Ffigur 2. Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu: Pam eu bod yn bwysig a beth a beth allwn ni ei wneud?*

## 5. Y gofyniad ar gyfer Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn Dechrau'n Deg

**Dylai pob tîm Dechrau'n Deg gynnwys Therapydd Lleferydd ac Iaith wedi'i gofrestru â'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).**

### 5.1 Gofyniad

Nododd yr '*Adolygiad o'r ymarferiad yng ngweithrediad yr elfen cymorth datblygiad iaith cynnar o fewn Dechrau'n Deg'* (Llywodraeth Cymru, 2014) y dylai pob awdurdod lleol gyflogi Therapyddion Lleferydd ac Iaith fel rhan o'i dîm craidd. Mae'r rhan fwyaf o Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n gweithio fel rhan o Dechrau'n Deg wedi'u cyflogi gan y GIG. Dylai'r trefniadau cyllido fod wedi'u hategu gan Gytundeb Lefel Gwasanaeth ysgrifenedig.

Mae gan Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n rhan o Dechrau'n Deg rôl hanfodol i'w chwarae wrth sicrhau y caiff pob plentyn y cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu i'w llawn botensial; yn ogystal â sicrhau bod cymorth priodol yn seiliedig ar dystiolaeth ar gael i blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae gan Therapyddion Lleferydd ac Iaith ran allweddol i'w chwarae wrth ddatblygu a chefnogi gwasanaethau ar lefelau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'u targedu, yn unol â'r sail tystiolaeth ddiweddaraf ac ar y cyd â rhieni, gofalwyr a chydweithwyr ym mhob rhan o dîm ehangach Dechrau'n Deg. Dylai cymorth gan Therapyddion Lleferydd ac Iaith ddechrau yn ystod y cyfnod cyn geni a pharhau drwy gydol taith y plentyn drwy Dechrau'n Deg.

Dylai Awdurdodau Lleol weithio mewn partneriaeth â'u Bwrdd Iechyd i bennu eu gofynion o ran y gweithlu Therapyddion Lleferydd ac Iaith. Dylai Arweinydd Dechrau'n Deg ac Arweinydd Iechyd yr Awdurdod Lleol a'r arweinydd proffesiynol sy'n gyfrifol am wasanaeth Therapi Lleferydd ac Iaith y Bwrdd Iechyd gydweithio. Dylai'r broses ar gyfer pennu cymysgedd sgiliau priodol o fewn y gweithlu therapi lleferydd ac iaith fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion y gymuned. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at 'Speech, Language and Communication Needs, Needs Assessment' (Speech and Language UK, 2011). Dylai hyn sicrhau y caiff anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant yn eu hardal leol eu diwallu.

## 5.2 Cyfrifoldebau

Mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n gweithio o fewn gwasanaethau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'u targedu yn chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Gweler ffframwaith Cronfa'r Brenin ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd sy'n gweithio ym maes iechyd y cyhoedd ac atal i gael canllawiau strwythuredig ar feysydd i'w hystyried mewn perthynas â datblygiad personol, datblygu gwasanaethau a datblygu gyrfa yn y maes hwn. Mae Pecyn Cymorth Atal yn y Blynyddoedd Cynnar hefyd ar gael i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yng Nghymru sy'n gweithio gyda phlant rhwng 0 a 7 oed. Mae'n anelu at helpu Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd i nodi ffyrdd o wella iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd fel unigolion ac fel timau ac i fanteisio i'r eithaf arnynt.

Prif rôl Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n gweithio fel rhan o Dechrau'n Deg fydd cynllunio, cyflwyno, monitro a gwerthuso'r hawliau sy'n gysylltiedig â lleferydd, iaith a chyfathrebu o fewn Dechrau'n Deg. Bydd y rolau a'r cyfrifoldebau penodol yn amrywio yn ôl y model gwasanaeth sydd ar waith yn eu Hawdurdod Lleol.

Fel rhan o dîm Dechrau'n Deg, dylai'r Therapydd Lleferydd ac Iaith wneud y canlynol:

- mynychu'r holl hyfforddiant gorfodol a nodi unrhyw fylchau yn ei wybodaeth a'i sgiliau â'i reolwr llinell, drwy ei adolygiad blynyddol o ddatblygiad personol (PADR).
- adrodd ar ddeilliannau yn unol â gofynion adrodd Llywodraeth Cymru a gofynion yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol.
- bod yn aelod o'r Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd yn y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Therapyddion Lleferydd ac Iaith.

Cyfeiriwch at Adran 6 a 7 o'r ddogfen hon i gael canllawiau pellach am rôl Therapyddion Lleferydd ac Iaith wrth nodi unigolion a rhoi ymyriadau ar waith pan fo angen cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Disgwylir i Therapyddion Lleferydd ac Iaith Dechrau'n Deg gydymffurfio â phrosesau diogelu ac amddiffyn plant, gan gynnwys gwneud atgyfeiriadau yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2019).

### **5.3** Goruchwyliaeth broffesiynol

Caiff Therapyddion Lleferydd ac Iaith eu rheoleiddio gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), ac mae'n ofynnol iddynt weithredu'n unol â'r safonau rheoliadol (Safonau HCPC: Safonau hyfedredd diwygiedig). Mae Gwybodaeth am Oruchwylio ar gael gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith. Mae goruchwyliaeth broffesiynol reolaidd yn hanfodol er mwyn sicrhau ymarfer diogel ac effeithiol ac mae'n un ffordd y gall Therapyddion Lleferydd ac Iaith ei defnyddio i ddangos eu bod yn cyrraedd Safonau'r HCPC ar Ymddygiad, Perfformiad a Moeseg. Rhaid cynnwys trefniadau ar gyfer goruchwyliaeth broffesiynol â Therapydd Lleferydd ac Iaith sy'n meddu ar wybodaeth berthnasol ac y mae ganddo brofiad hefyd o waith cyffredinol, poblogaeth ac wedi'i dargedu wrth gynllunio gwaith ar gyfer Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n gweithio fel rhan o Dechrau'n Deg.

Gall rheolwr llinell â chefndir ym maes lleferydd, iaith a chyfathrebu, neu reolwr llinell heb gefndir o'r fath, ymgymryd â'r gwaith goruchwylio, ond bydd angen iddo roi sylw i'w faes ymarfer a dirprwyo yn unol â hynny.

Mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n rhan o Dechrau'n Deg yn cyflawni rôl gynghorol, ac maent yn gyfrifol am atal a nodi achosion yn gynnar. Dylid bod cyswllt agos rhwng y Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n gweithio fel rhan o Dechrau'n Deg a gwasanaethau arbenigol y GIG er mwyn sicrhau parhad rhwng y gwasanaethau i leihau achosion o ddyblygu ac i sicrhau'r deilliannau gorau posibl. Dylai Therapyddion Lleferydd ac Iaith allu cael gafael ar gymorth proffesiynol o'r tu mewn i'r proffesiwn ac yn allanol.

## 6. Nodi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, neu sy'n wynebu risg o ddatblygu anghenion o'r fath

### **6.1** Adolygiad o sgrinio iaith gynnar

Comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad o'r enw '*Adolygiad o sgrinio iaith gynnar yn addas ar gyfer plant yng Nghymru o enedigaeth hyd at 5 mlwydd oed'* (Llywodraeth Cymru, 2022c). Gweler y crynodeb gweithredol, yr adroddiad llawn, a'r crynodeb o'r weminar.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol:
"Nid oes un offeryn unigol sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer mesurau gwyddonol tra hefyd yn sgrinio ar gyfer y sgiliau cyfathrebu a argymhellir sy'n rhychwantu rhwng 15 mis a 4 oed 11 mis i'w defnyddio yng Nghymru. Mae hyn yn wir am blant o gefndiroedd Saesneg eu hiaith a'r rhai o gartrefi dwyieithog neu amlieithog." (Llywodraeth Cymru, 2022c).

Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi comisiynu gwaith i ddatblygu pecyn gwyliadwriaeth ac ymyriadau dwyieithog newydd ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu i blant rhwng 0 a 5 oed yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2026.

Yn y cyfamser, er mai'r cyngor yw y dylai ymarferwyr barhau â'u dulliau nodi presennol, dylent ystyried argymhellion yr adroddiad.

Yn ystod cyfnod datblygu'r pecyn lleferydd, iaith a chyfathrebu, ni fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi unrhyw fuddsoddiadau newydd sylweddol mewn adnoddau ar gyfer nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan gynnwys WellComm, y nodwyd nad oedd yn addas at y diben.

### **6.2** Ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar

**Dylai pob ymarferydd fod yn ymwybodol o'r ffactorau risg a'r ffactorau amddiffynnol ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar a dylai eu hystyried fel rhan o'i broses ar gyfer cynnal asesiad cyfannol o blentyn.**

Mae'r ffactorau risg a'r ffactorau amddiffynnol a nodwyd yn yr *Adolygiad o Sgrinio Iaith Gynnar yn Addas ar gyfer Plant yng Nghymru o Enedigaeth hyd at 5 mlwydd oed* (Llywodraeth Cymru, 2022c) wedi'u nodi isod. Mae lefel y dystiolaeth ar gyfer pob ffactor risg yn amrywio, ac ni ddylid ystyried unrhyw ffactorau ar eu pen eu hunain. Nid yw'r rhestr yn cynnwys popeth. Dylid ystyried y ffactorau risg a'r ffactorau amddiffynnol isod wrth nodi plant y mae dulliau wedi'u targedu yn debygol o fod o fudd iddynt.

**Tabl 1: Ffactorau seicolegol sy'n gysylltiedig â ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu**

| Ffactorau Ffisiolegol | Ffactorau Risg | Ffactorau amddiffynnol |
|---|---|---|
| Ffactorau Cyn Geni | Genedigaeth Gynamserol | Cael eich geni tymor llawn |
| Rhyw Biolegol | Gwrywaidd | Benywaidd |
| Clyw | Colli clyw synhwyraidd | Dim colled clyw |
| Anian | Plant swil neu gymdeithasolrwydd isel. Anian adweithiol | Anian gymdeithasgar, fwy parhaus |

**Tabl 2: Ffactorau teuluol ac amgylcheddol a'r ffactorau risg ac amddiffynnol cysylltiedig**

| Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol | Ffactorau Risg | Ffactorau Amddiffynnol |
|---|---|---|
| Oed y Fam | Mam sy'n iau na 30 oed adeg geni'r plentyn cyntaf | Mamau sy'n hŷn na 30 oed adeg geni'r plentyn cyntaf |
| Hanes o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y teulu | Hanes o aelod agos o'r teulu ag Anhwylder Datblygu Iaith | Ddim yn Berthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| Statws economaidd-gymdeithasol | Statws economaidd-gymdeithasol isel | Ddim yn Berthnasol |
| Lefel addysg y rhieni | Lefel addysg y rhieni yn isel | Lefel addysg y rhieni yn uchel. Gwybodaeth am ddatblygiad plant. |
| Ansawdd y rhyngweithio | Lleferydd cyfyngedig dan gyfarwyddyd y plentyn. Mynediad cyfyngedig i eirfa amrywiol | Lefelau uchel o leferydd dan gyfarwyddyd y plentyn. Mynediad uchel i eirfa amrywiol |
| Rhannu llyfrau | Mynediad cyfyngedig i lyfrau neu weithgareddau rhannu llyfrau | Gweithgareddau rhannu llyfrau rheolaidd a mynediad rheolaidd i lyfrau |
| Gofal Plant | Ddim yn Berthnasol | Dod i gysylltiad â lleoliadau gofal plant a modelau rôl iaith eraill |

**Tabl 3: Ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol mewn perthynas â sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu**

| Nodwedd Ddatblygiadol | Ffactorau Risg | Ffactorau Amddiffynnol |
|---|---|---|
| Baldorddi | Dim Baldorddi neu Faldorddi Cyfyngedig | Defnyddio baldorddi ar lefel ddatblygiadol briodol |
| Ystum | Dim pwyntio neu ddefnydd cyfyngedig o ystumiau | Pwyntio a gwneud ystumiau |
| Difrifoldeb anhawster | Anawsterau derbyn ieithyddol a mynegi ieithyddol. Bwlch mawr rhwng lefel ddisgwyliedig yr iaith a'r lefel y mae'r plentyn yn gweithredu arni | Cyrraedd cerrig milltir datblygiadol |

| | | |
|---|---|---|
| Geirfa | Geirfa fynegiannol gyfyngedig | Defnydd eang o eirfa |
| Marcwyr gramadegol | Diffyg marcwyr gramadegol e.e., berfau cynorthwyol yn y Saesneg 'is', amser gorffennol e.e. '-odd' a lluosog | Defnyddio strwythurau gramadegol ar lefel briodol i oedran. |

## 6.3 Gwybodaeth, sgiliau ac ymarfer ymarferwyr wrth nodi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, neu sy'n wynebu risg o ddatblygu anghenion o'r fath

**Dylai pob ymarferydd o leiaf gwblhau'r lefel hyfforddiant 'craidd' ar y llwybr hyfforddi lleferydd, iaith a chyfathrebu.**




*Ffigur 3. Llwybr Hyfforddi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan.*

Dyluniwyd llwybr hyfforddi lleferydd, iaith a chyfathrebu Cymru Gyfan (Llywodraeth Cymru, 2021a) i helpu ymarferwyr i nodi'r anghenion hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n briodol ar gyfer eu rôl ac i ddiwallu'r anghenion hynny, ac mae'n ofynnol i bob ymarferydd Dechrau'n Deg gyflawni'r lefel hyfforddiant craidd a ddynodir yn y llwybr fel gofyniad sylfaenol. Mae'r llwybr hyfforddi hefyd yn berthnasol i'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant rhwng 0 a 4 oed 11 mis y tu allan i Dechrau'n Deg.

Dylid sicrhau bod Therapydd Lleferydd ac Iaith ar gael i roi cyngor i ymarferwyr i'w helpu i nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae hyn yn hyrwyddo ymarfer myfyriol ac yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus.

### 6.4 Rôl Therapyddion Lleferydd ac Iaith wrth nodi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, neu sy'n wynebu risg o ddatblygu anghenion o'r fath

**Dylai Therapyddion Lleferydd ac Iaith Dechrau'n Deg ddarparu hyfforddiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth (yn unol â llwybr hyfforddi lleferydd, iaith a chyfathrebu Cymru gyfan) a rhoi cyngor er mwyn helpu pob ymarferydd Dechrau'n Deg i nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.**

Dylai Therapyddion Lleferydd ac Iaith Dechrau'n Deg ddarparu hyfforddiant yn unol â llwybr hyfforddi lleferydd, iaith a chyfathrebu Cymru gyfan (Llywodraeth Cymru, 2021a). Gellir darparu'r hyfforddiant hwn ar y cyd â phartneriaid eraill (e.e. Ymwelwyr Iechyd, Seicolegwyr Addysg, Athrawon Ymgynghorol).


Bydd y trefniadau gweithredu a Sicrhau Ansawdd ar gyfer y llwybr hyfforddi yn amrywio'n lleol a bydd angen cytuno arnynt a'u cyfleu i'r sector cyfan ym mhob Awdurdod Lleol neu gonsortiwm.

Dylai Therapyddion Lleferydd ac Iaith roi cyngor i ymarferwyr. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, sesiynau goruchwylio i unigolion neu grwpiau, neu sicrhau ansawdd y prosesau ar gyfer defnyddio adnoddau nodi.

## 7. Ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar lefelau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'u targedu

### 7.1 Lefelau ymyriadau

Dylai cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg ddilyn y model haenog a ddisgrifir yng Nghynllun Cyflawni Siarad Gyda Fi (Llywodraeth Cymru, 2020b) er mwyn sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth cywir gan y person cywir ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir (Ffigur 4). Mae cynnwys Therapyddion Lleferydd ac Iaith fel rhan integredig o dimau ar lefelau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'u targedu yn golygu y gellir ymateb ar wahanol raddau i lefel yr anghenion ac yn lleihau'r risg y bydd galw am wasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith arbenigol na ellir ymdopi ag ef.




*Ffigur 4. Y lefelau ymyriadau a ddisgrifir drwy'r canllawiau.*

## 7.2 Ymyriadau ar lefel gyffredinol

**Dylai pob rhiant sy'n gysylltiedig â Dechrau'n Deg fod yn ymwybodol o negeseuon allweddol Siarad Gyda Fi, a dylai pob ymarferydd Dechrau'n Deg fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r negeseuon.**

Dangosodd canfyddiadau adroddiad Bercow (2008) nad oedd rhieni yn gwybod digon am ddatblygiad lleferydd ac iaith. Roedd rhieni i bob teulu gael gwybodaeth ac arweiniad am ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu. Atgyfnerthodd canfyddiadau astudiaeth gan y Behavioural Insights Team (BIT) yn 2021 y neges hon, gan nodi bodo teuluoedd am gael negeseuon penodol am leferydd, iaith a chyfathrebu wedi'u hategu gan dystiolaeth wyddonol (gweler Sut i rannu a defnyddio negeseuon Siarad Gyda Fi | LLYW.CYMRU) (Ffigur 5).




**Sut i rannu a defnyddio negeseuon 'Siarad gyda fi'**

Defnyddia'r ddogfen hwn i rannu negeseuon effeithiol ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu.

*Ffigur 5. Sut i rannu a defnyddio negeseuon 'Siarad gyda fi'.*

Mae adnoddau Siarad gyda Fi ar gael drwy dudalen ymgyrch Siarad gyda Fi (Ffigur 6) lle gall rhieni ac ymarferwyr gael gafael ar y daflen '10 tip i fi helpu i ddysgu siarad', gwybodaeth am oedrannau a chyfnodau datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ac adnoddau a chyngor pellach. Dylid rhannu'r negeseuon a'r adnoddau hyn â bob rhiant, gofalwr a theulu babanod a phlant ifanc, o'r cam cyn geni ymlaen.





*Ffigur 6. Tudalen ymgyrch Siarad gyda fi.*

Mae tudalen Siarad gyda Fi i [ymarferwyr](#) (Ffigur 7) yn cynnwys adnoddau pellach gan gynnwys cyngor y gellir ei rannu â theuluoedd ar bynciau mwy arbenigol fel [atal dweud](#) ac [ymwybyddiaeth o ffonoleg](#).




*Ffigur 7. Tudalen Siarad gyda fi i ymarferwyr.*

Mae ymgyrch Plant Bach Hapus y BBC (Ffigur 8) wedi'i dylunio i helpu rhieni a gofalwyr ddatblygu sgiliau iaith eu plentyn. Mae'n cynnig gweithgareddau a syniadau chwarae syml a gwybodaeth am ddatblygiad cynnar babanod a phlant bach.  Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael yn Gymraeg (Ffigur 9).




*Ffigur 8. Gwe-dudalen Plant Bach Hapus.*




*Ffigur 9. Gwe-dudalen Plant Bach Hapus – adnoddau Cymraeg.*

Gellid rhannu negeseuon lleferydd, iaith a chyfathrebu â theuluoedd unigol neu ar ffurf grŵp. Gallai'r grwpiau hyn gynnwys grwpiau sy'n targedu lleferydd, iaith a chyfathrebu yn benodol e.e. Elklan's 'Lets talk with your baby' neu gellir cynnwys negeseuon lleferydd, iaith a chyfathrebu fel rhan o grwpiau eraill e.e. tylino babanod.

### **7.3** Ymyriadau ar lefelau poblogaeth ac wedi'u targedu

**Dylai ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn Dechrau'n Deg gynnwys strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hyrwyddo rhyngweithio.**

Cynhaliwyd Adolygiad Ymyrraeth Cymru (WiRE) (Llywodraeth Cymru, 2023a) er mwyn helpu'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant o dan 5 oed i wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd ac addysg. Mae'n darparu crynodeb o'r gwaith ymchwil a wnaed i nodi ymyriadau sy'n debygol o fod o fudd i ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant. Amlinellir manylion pob un o'r ymyriadau ac mae canllaw cryno ar gael i ymarferwyr (Ffigur 10). Mae'r ymyriadau a gaiff eu hadolygu yn yr adroddiad yn cynnwys y rhai hynny â ffocws penodol ar leferydd, iaith a chyfathrebu yn ogystal â'r rhai hynny a oedd yn canolbwyntio ar Rianta neu Iechyd Meddwl Amenedigol a Babanod. Mae

hyn oherwydd y cysylltiad agos rhwng ymyriadau sy'n targedu'r meysydd hyn h.y. canolbwyntio ar ymatebolrwydd rhieni.




*Ffigur 10. Adolygiad Ymyrraeth Cymru & canllaw cryno.*

## **7.4** Ymyriadau ar lefel arbenigol

**Dylid rhoi llwybrau ar waith i sicrhau y caiff plant sy'n wynebu risg o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu parhaus eu hatgyfeirio at y gwasanaethau arbenigol priodol.**

Ni ddylid darparu therapi lleferydd ac iaith arbenigol fel rhan o wasanaethau a gomisiynir gan Dechrau'n Deg gan mai rhaglen wedi'i thargedu yw Dechrau'n Deg. Dylid atgyfeirio plant y mae angen therapi lleferydd ac iaith unigol ac arbenigol arnynt at wasanaethau therapi lleferydd ac iaith 'craidd' y GIG. Gall hyn gynnwys (ymhlith eraill) plant ag anhwylder sain lleferydd, plant â gwefus a thaflod hollt, plant ag atal dweud a phlant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n gysylltiedig â chyflyrau eraill. Nod therapi lleferydd ac iaith arbenigol yw lleihau effaith negyddol anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Gall fod o fudd cyfeirio neu atgyfeirio plant a theuluoedd at wasanaethau cymorth eraill.  Gall y rhain gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan rannau amgen o'r cynllun Dechrau'n Deg neu gan wasanaethau eraill yn yr Awdurdod Lleol, y GIG, elusennau neu wirfoddolwyr.

**7.5** Gwybodaeth, sgiliau ac ymarfer ymarferwyr er mwyn rhoi ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar waith

**Dylai pob ymarferydd feddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i roi ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar waith ar y lefel sy'n berthnasol i'w rôl.**

Dyluniwyd llwybr hyfforddi lleferydd, iaith a chyfathrebu Cymru Gyfan (Llywodraeth Cymru, 2021a) i helpu ymarferwyr i nodi'r anghenion hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n briodol ar gyfer eu rôl ac i ddiwallu'r anghenion hynny, ac mae'n ofynnol i bob ymarferydd Dechrau'n Deg gyflawni'r lefel hyfforddiant craidd a ddynodir yn y llwybr fel gofyniad sylfaenol. Mae'r llwybr hyfforddi hefyd yn berthnasol i'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant rhwng 0 a 4 oed 11 mis y tu allan i Dechrau'n Deg.

Mae Adolygiad Ymyrraeth Cymru (WiRE) (Llywodraeth Cymru, 2023a) yn crynhoi'r ymyriadau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'u targedu sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ystod y blynyddoedd cynnar. Mae'r canllaw cryno i ymarferwyr yn nodi manylion pob un o'r ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a nodwyd gan ganolbwyntio ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu, Rhianta ac Iechyd Meddwl Amenedigol a Babanod.

Mae'r canllawiau 'Cefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar' wedi'u hanelu at ymarferwyr sy'n darparu gwasanaethau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ECPLC) i blant rhwng 0 oed a 3 oed 11 mis. Maent yn anelu at ddatblygu gwybodaeth ymarferwyr am ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu a'u hyder a'u sgiliau wrth nodi anghenion plant yn y lleoliad a'u diwallu.



**Lleferydd, iaith a Chyfathrebu: canllaw**

Mae'r canllaw hwn ar gyfer ymarferwyr sy'n darparu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i blant 0 i 4 oed.

*Ffigur 11. Canllawiau lleferydd, iaith a chyfathrebu.*

Dylai ymarferwyr gyfeirio at adran 9 o'r canllawiau lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg hyn (Gwerthuso a Monitro) a thrafod y trefniadau lleol ar gyfer monitro deilliannau lleferydd, iaith a chyfathrebu a'u rôl wrth gasglu'r deilliannau hyn.

Dylid sicrhau bod Therapydd Lleferydd ac Iaith ar gael i roi cyngor i ymarferwyr i'w helpu i roi ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar waith. Mae hyn yn hyrwyddo ymarfer myfyriol ac yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus.

### **7.6** Rôl Therapyddion Lleferydd ac Iaith wrth roi ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar waith

**Dylai Therapyddion Lleferydd ac Iaith Dechrau'n Deg ddarparu hyfforddiant a sesiynau goruchwylio sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn helpu pob ymarferydd Dechrau'n Deg i roi cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.**

Dylai Therapyddion Lleferydd ac Iaith Dechrau'n Deg ddarparu hyfforddiant neu gyfeirio unigolion at hyfforddiant yn unol â llwybr hyfforddi lleferydd, iaith a

chyfathrebu Cymru gyfan (Llywodraeth Cymru, 2021a). Gellir darparu'r hyfforddiant hwn ar y cyd â phartneriaid eraill. Bydd y trefniadau gweithredu a Sicrhau Ansawdd ar gyfer y llwybr hyfforddi yn amrywio'n lleol a bydd angen cytuno arnynt a'u cyfleu i'r sector cyfan ym mhob Awdurdod Lleol neu gonsortiwm.

Dylai Therapyddion Lleferydd ac Iaith roi cyngor i ymarferwyr. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, sesiynau goruchwylio i unigolion neu grwpiau, neu sicrhau ansawdd y prosesau ar gyfer rhoi ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar waith.

## 8. Ystyriaethau statudol

### 8.1 Anghenion Dysgu Ychwanegol

Caiff Therapyddion Dechrau'n Deg eu comisiynu i ddarparu gwasanaeth atal a nodi cynnar i blant o dan 3 oed 11 mis.  Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (Llywodraeth Cymru, 2018) yn sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc.

Lle y bo'n briodol, gall Therapyddion Lleferydd ac Iaith Dechrau'n Deg rannu gwybodaeth am weithrediad lleferydd, iaith a chyfathrebu presennol plentyn ar gyfer Cynllun Datblygu Unigol.  Nid yw'r ymyriadau a ddarperir gan Dechrau'n Deg ar lefel arbenigol ac felly ni chânt eu hystyried fel Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol y GIG.

Gall plant a theuluoedd Dechrau'n Deg gael cymorth gan wasanaethau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'u targedu, a chan wasanaethau arbenigol (y GIG) ar yr un pryd, gan ddibynnu ar anghenion y plentyn a'r teulu.

### 8.2 Ystyriaethau gwrth-hiliaeth a diwylliannol

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (Llywodraeth Cymru, 2022a) yn ymrwymo i gefnogi Cymru fwy cynhwysol ac amrywiol. Mae Adran 12, 'Gofal Plant a Chwarae', yn nodi sawl nod, gan gynnwys hyfforddiant gwrth-hiliol perthnasol i'r sector gofal plant a chwarae. Dylai pob ymarferydd Dechrau'n Deg gynnwys egwyddorion gwrth-hiliol yn ei waith, e.e.  wrth helpu teuluoedd i oresgyn rhwystrau wrth gael gafael ar ofal plant.

Mae amrywiaeth gynyddol o anghenion ieithyddol a diwylliannol yng Nghymru.  Mae gwahanol ddiwylliannau yn cynnig gwahanol gyfleoedd cyfathrebu a modelau iaith i blant ifanc.  Mewn rhai diwylliannau, ceir gwahaniaethau o ran y gwerthoedd, y credoau a'r arferion sy'n sail i ryngweithio rhwng y rhiant a'r plentyn (Kuchirko, 2019). Mae llawer o'r ymyriadau rydym yn eu defnyddio i gefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu yn seiliedig ar normau Cymraeg a Saesneg a disgwyliadau diwylliannol gorllewinol. Dylid ystyried hyn wrth weithio gyda theuluoedd o wahanol gefndiroedd.

Mae'n hanfodol bod ymarferwyr Dechrau'n Deg yn ystyriol i anghenion ieithyddol a diwylliannol gwahanol teuluoedd a'u bod yn addasu eu dulliau gweithredu gan ddibynnu ar anghenion y teulu.  Caiff plant eu cefnogi i gyfathrebu'n effeithiol mewn ffordd y gellid ei deall yn yr ieithoedd a gaiff eu siarad gan eu teuluoedd a'u cymunedau, yng nghyd-destun datblygu eu hunaniaethau diwylliannol (Y Panel Arbenigol Rhyngwladol ar Leferydd Plant Amlieithog, 2012).

### **8.3** Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a phlant sy'n derbyn gofal

Mae gan lawer o ‘blant sy'n derbyn gofal’ a phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu heb eu nodi. Roedd gan 90% o'r unigolion a ymadawodd â gofal mewn astudiaeth yn 2021 anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu nas nodwyd yn flaenorol (Clegg et al, 2021). Mae datblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn eu helpu i feithrin cydberthnasau ac yn gwella eu cyrhaeddiad addysgol a'u cyfleoedd bywyd yn y dyfodol.

Mae llawer o adnoddau sy'n benodol berthnasol i'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal a phlant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan gynnwys:

- Taflen ffeithiau Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (RCSLT) ar ddiogelu plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Taflen ffeithiau Siarad gyda Fi ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhlith plant sy'n derbyn gofal

Dylid rhannu'r adnoddau hyn yn eang o fewn y tîm Dechrau'n Deg a dylid cydnabod y nodweddion sy'n golygu bod y plant hyn yn agored i niwed a'u monitro'n briodol.

## 9. Gwerthuso a monitro

**Dylid defnyddio systemau ar gyfer monitro a gwerthuso i ddangos effaith cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu o ran newid yn y plentyn, newid yn yr oedolyn a newid yn yr amgylchedd cyfathrebu.**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fonitro effaith rhaglen Dechrau'n Deg, gan gynnwys hawliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae gwerthuso'r rhaglen yn ffordd o sicrhau ansawdd ac yn rhoi syniad a yw'r cymorth cynnar a roddir i blant a rhieni o fudd iddynt. Er mwyn asesu a yw gwasanaethau yn gweithio'n effeithiol, dylid rhoi systemau ar waith i fonitro a gwerthuso ymyriadau. Mae Law et al (2013) yn nodi y dylid rhoi blaenoriaeth i gynnal gwerthusiadau pellach a manylach o ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu addawol, yn enwedig gwasanaethau i blant o dan 3 oed.

Cafodd y deilliannau lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg a gesglir gan Lywodraeth Cymru eu hadolygu yn 2022. Aeth gweithgor o arbenigwyr ym maes lleferydd, iaith a chyfathrebu o bob cwr o Gymru ati i ddatblygu mesurau deilliannau newydd. Mae'r deilliannau a'r canllawiau lleferydd, iaith a chyfathrebu (Llywodraeth Cymru, 2022d) yn dangos gwybodaeth am y canlynol:

- Newid yn y Plentyn
- Newid yn y Gofalwr
- Newid yn yr Ymarferydd
- Newid yn yr Amgylchedd Gofal Plant

Gellir casglu deilliannau o unrhyw ymyriad a all effeithio ar sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant (nid o reidrwydd y rhai hynny sy'n targedu lleferydd, iaith a chyfathrebu neu a gaiff eu darparu gan Therapyddion Lleferydd ac Iaith). Bydd y deilliannau yn sicrhau y gall Llywodraeth Cymru fonitro effaith ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar blant, teuluoedd a'u hamgylcheddau, nid dim ond y mewnbynnau.

## 10. Crynodeb

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw sicrhau y gall plant o bob cefndir gael y dechrau gorau mewn bywyd a gwireddu eu potensial yn llawn.

Dylai elfen lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg rymuso pob ymarferydd i ryngweithio â phlant mewn modd ymatebol, gan gefnogi eu datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn barhaus;  ac i gefnogi teuluoedd i wneud yr un peth.  Nod canllawiau lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg yw cyfeirio rheolwyr ac ymarferwyr Dechrau'n Deg at wybodaeth ac adnoddau a fydd yn eu helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant.  Bydd hyn yn sicrhau y caiff plant eu cefnogi i gyflawni eu llawn botensial ac y rhoddir dechrau teg iddynt mewn bywyd.

## 11. Rhestr dermau

**Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):** Bydd gan ddysgwr ADY os bydd ganddo neu ganddi anhawster neu anabledd dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) (Llywodraeth Cymru, 2020a)

Terminoleg **Dwyieithrwydd**:

- **Dwyieithrwydd:** Y gallu i gynhyrchu dwy iaith gan ddangos o leiaf lefel sylfaenol o hyfedredd neu ddefnydd gweithredol, ni waeth pa oedran y dysgwyd yr ieithoedd (Y Panel Arbenigol Rhyngwladol ar Leferydd Plant Amlieithog, 2012).
- **Amlieithrwydd**: Y gallu i siarad mwy na dwy iaith gan ddangos o leiaf lefel sylfaenol o hyfedredd neu ddefnydd gweithredol, ni waeth pa oedran y dysgwyd yr ieithoedd hynny (Y Panel Arbenigol Rhyngwladol ar Leferydd Plant Amlieithog, 2012).
- **Iaith y Cartref neu Ddewis Iaith:** mae'r term hwn yn disgrifio'r iaith y mae plentyn yn ei chlywed yn amgylchedd ei gartref. Mewn llenyddiaeth, defnyddir y termau mamiaith, iaith gyntaf ac iaith 1 hefyd.
- **Iaith ychwanegol:** mae'r term hwn yn disgrifio'r iaith y mae plentyn yn ei chlywed yn ychwanegol at iaith y cartref. Mewn llenyddiaeth, defnyddir y termau ail iaith ac iaith 2 hefyd.

Terminoleg **Lefelau Darpariaeth:**

- Diffiniad o **Cyffredinol**: Menter iechyd y cyhoedd sydd ar gael i bawb mewn rhanbarth penodol gyda'r nod o wella gwybodaeth y cyhoedd am leferydd, iaith a chyfathrebu e.e. Rhaglen Plant Iach Cymru.
- Diffiniad o **Poblogaeth** (neu “dethol wedi'i dargedu"): Ymgyrch iechyd y cyhoedd sy'n canolbwyntio ar grwpiau penodol o fewn poblogaeth, e.e. ystod oedran benodol, grwpiau sy'n wynebu risg benodol. Cynigir cymorth i boblogaeth y gwyddys ei bod dan anfantais ac yn wynebu risg bosibl os nad eir i'r afael â'r mater, e.e. Dechrau'n Deg.
- Diffiniad o **Wedi'i dargedu** (neu “a nodwyd wedi'i dargedu"): Dull gweithredu wedi'i deilwra ar gyfer unigolyn er mwyn lleihau'r risg o gyflwr y gellid ei atal. Bydd hyn yn mynd i'r afael ag anghenion penodol plentyn neu oedolyn sydd

angen ymyriad uniongyrchol â mwy o ffocws a strwythur, e.e. grwpiau wedi'u targedu ar gyfer plant y nodwyd bod ganddynt anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

- Diffiniad o **Arbenigol**: Gwasanaethau i'r rhai hynny ag anghenion arbenigol y mae angen mwy o wybodaeth neu sgiliau er mwyn gwneud diagnosis, ystyried opsiynau trin, rhoi ymyriadau ar waith a monitro cynnydd. Mae'n anelu at leihau'r amhariad a gwella llesiant y plentyn neu'r oedolyn e.e. asesiad ffurfiol gan Therapydd Lleferydd ac Iaith mewn gwasanaeth arbenigol (Enderby & Law, 2019)

**Therapydd Lleferydd ac Iaith:** Y teitl a roddir i weithiwr proffesiynol sydd wedi'i gofrestru â'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) sy'n asesu, yn trin ac yn helpu i atal anawsterau lleferydd, iaith a llyncu.

**Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu:**

- Mae **lleferydd** yn cynnwys:
    - Cynaniad: y gallu i ynganu seiniau. Mae'n ymwneud â symud yr organau lleisio; y tafod, y daflod feddal, y genau, y dannedd, y gwefusau.
    - Ffonoleg: astudio seiniau lleferydd, eu patrymau a dilyniannau a'r rheolau sy'n gysylltiedig â chyfuno seiniau i greu geiriau.
- Mae **iaith** yn cynnwys:
    - derbyn ieithyddol: deall iaith lafar (neu ysgrifenedig), gan gynnwys deall geirfa a gramadeg
    - mynegi ieithyddol: defnyddio geirfa, gramadeg a morffoleg gan ddefnyddio geiriau, arwyddion neu symbolau.
    - Cystrawen a Gramadeg: y ffordd y caiff geiriau eu rhoi at ei gilydd i greu ymadroddion a brawddegau
    - Morffoleg: astudio strwythur mewnol geiriau. Mae hyn yn cynnwys newidiadau bach i eiriau e.e. ychwanegu at air i greu lluosog.
    - Pragmateg: astudio'r defnydd cymdeithasol o iaith. Mae hyn yn cynnwys y gallu i ryngweithio'n effeithio, i ddefnyddio'r gair cywir yn y lle cywir ac i ystyried safbwynt y gwrandäwr wrth siarad.

- Mae **cyfathrebu** (anfon a derbyn negeseuon) yn cynnwys:
    - Cyfathrebu llafar: gan gyfathrebu drwy ddefnyddio geiriau llafar
    - Cyfathrebu dieiriau: gan gyfathrebu heb eiriau. Mae'n cynnwys mynegiannau'r wyneb, cyswllt llygad, ystumiau a thôn y llais, yn ogystal â negeseuon llai amlwg fel osgo a'r pellter gofodol rhwng unigolion. Mae babanod, plant bach a llawer o blant ag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn defnyddio dulliau cyfathrebu dieiriau i gyfathrebu.

**Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu:** term ambarél i ddisgrifio'r amrywiaeth lawn o anawsterau cyfathrebu y mae plant yn eu hwynebu, ni waeth beth fydd y tarddiad neu'r nodweddion ar y pryd (Bercow, 2008). Nododd ICAN (2009), sef yr elusen cyfathrebu plant, y gellir rhannu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ddau grŵp:

- **Anghenion byrhoedlog** – plant ag iaith dlawd y mae datblygiad eu sgiliau lleferydd ac iaith yn anaeddfed neu'n wael. Mae'n bosibl y byddant yn ei chael hi'n anodd deall iaith, y bydd ganddynt eirfa lai, y byddant yn defnyddio brawddegau byrrach ac y bydd eu lleferydd o bosibl yn aneglur. Gyda'r cymorth cywir, mae plant ag anghenion byrhoedlog yn debygol o ddal i fyny â'u cyfoedion;
- **Anghenion parhaus** – gall plant ei chael hi'n anodd deall a defnyddio iaith, prosesau a defnyddio seiniau lleferydd, neu ddeall a defnyddio iaith mewn cyd-destunau cymdeithasol. Gall fod gan rai o'r plant hyn amhariadau lleferydd ac iaith sylfaenol; gall fod gan eraill anawsterau sy'n rhan o anawsterau dysgu mwy cyffredinol neu gyflyrau eraill fel amhariad ar y clyw neu awtistiaeth. O ystyried natur rhai amhariadau cyfathrebu, bydd gan rai plant anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu parhaus, hyd yn oed os caiff yr effaith gymdeithasol ac amgylcheddol ei lleihau.

## 12. Adnoddau

- Canllawiau Dechrau'n Deg: Dechrau'n Deg: canllawiau | LLYW.CYMRU
- Crynodeb o Ganllawiau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Dechrau'n Deg
- Cymuned Ymarfer ExChange: yn cynnwys gweminarau ar drawma, ymlyniad a lleferydd, iaith a chyfathrebu;  adolygiad sgrinio; effaith y cyfyngiadau symud ar leferydd, iaith a chyfathrebu; a'r llwybrau datblygu iaith a'r ffactorau risg ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Tudalen adnoddau ExChange: yn cynnwys adnoddau hyfforddi fideo dwyieithog i ymarferwyr ar ddatblygiad nodweddiadol lleferydd, iaith a chyfathrebu, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a strategaethau i helpu plant cyn oed ysgol a phlant oed ysgol
- Sut i Rannu negeseuon allweddol Siarad gyda Fi: Sut i rannu a defnyddio negeseuon Siarad Gyda Fi | LLYW.CYMRU – canllaw i ymarferwyr yn seiliedig ar waith ymchwil Behavioural Insight Team
- Adolygiad o sgrinio iaith gynnar yn addas ar gyfer plant yng Nghymru o enedigaeth hyd at 5 mlwydd oed: Adroddiad a Chrynodeb Gweithredol
- Tudalen ymgyrch Siarad gyda Fi: adnoddau i deuluoedd gan gynnwys pecyn i rieni a thaflenni ffeithiau ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu penodol
- Tudalen ymarferwyr yr ymgyrch Siarad gyda Fi: adnoddau i ymarferwyr lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan gynnwys llwybr hyfforddi a phoster oedrannau a chamau
- What works: yn bennaf i ymarferwyr – athrawon, arweinwyr ysgolion, ymarferwyr blynyddoedd cynnar a therapyddion lleferydd ac iaith – i'w helpu i ddod o hyd i ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Plant bach hapus
- Canllawiau Deilliannau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Dechrau'n Deg
- Canllaw i ymarferwyr Cynllun Cyflawni Siarad gyda Fi

## 13. Cyfeiriadau


- Clegg, J., Crawford, E., Spencer, S. a Matthews, D. (2021). Developmental Language Disorder (DLD) in Young People Leaving Care in England: A Study Profiling the Language, Literacy and Communication Abilities of Young People Transitioning from Care to Independence. Cyfnodolyn Rhyngwladol, Gwaith Ymchwil Amgylcheddol. Iechyd y Cyhoedd, 18, 4107. https://doi.org/10.3390/ijerph18084107
- Crago, M., Eriks-Brophy, A., Pesco, D., a McApline, L. (1997) Culturally based miscommunication in classroom interaction. Language, Speech and Hearing Services in the Schools, 28, 245 – 254.
- Cronfa'r Brenin (2021) My role in tackling health inequalities: a framework for allied health professionals My role in tackling health inequalities: a framework for allied health professionals | Cronfa'r Brenin (kingsfund.org.uk)
- Cyfres ICAN Talk – Rhifyn 2. (2009) The Cost of the Nation of Children's Poor Communication. ICAN
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (Llywodraeth Cymru 2018)
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Deddf Cydraddoldeb 2010 (Legislation.gov.uk, 2010)

  disadvantage, International Journal of Language and Communication Disorders, 46(6), tud. 657-64
- EIF (2017) Language as a Child Wellbeing Indicator Language as a child wellbeing indicator | Early Intervention Foundation (eif.org.uk)
- Enderby P a Law J. (2019) Speech, Language, and Communication in a Public Health Context: A UK Perspective with Potential Global Application – An Opinion Piece. *Folia Phoniatr Logop* 71 (4): 168–175. https://doi.org/10.1159/000495785
- Gilkerson J, Richards JA, Warren SF, Montgomery JK, Greenwood CR, Kimbrough Oller D, Hansen JHL, and Paul TD (2017). Mapping the Early Language Environment Using All-Day Recordings and Automated Analysis.

Am J Speech Lang Pathol. 2017 May 17;26(2):248-265. doi: 10.1044/2016_AJSLP-15-0169. PMID: 28418456; PMCID: PMC6195063.

- Gofal Cymdeithasol Cymru (2019) Gweithdrefnau Diogelu Cymru Diogelu Cymru
- Kuchirko, Y. (2019) 'On differences and deficits: A critique of the theoretical and methodological underpinnings of the word gap', Journal of Early Childhood Literacy, 19(4), tud. 533–562. doi: 10.1177/1468798417747029
- Law J, McBean K, Rush R (2011). Communication skills in a population
- Law, J, Todd, L, Clark, J, Mroz, M a Carr, J (2013) Early Language Delays in the UK. Achub y Plant Early Language Delays in the UK | Save the Children's Resource Centre
- Locke A, Ginsborg J, Peers I (2002). Development and disadvantage: Implications for the early years and beyond, International Journal of Language and Communication Disorders, 37(1), tud. 3-15
- Llywodraeth Cymru (2014) Adolygiad o'r ymarferiad yng ngweithrediad yr elfen cymorth datblygiad iaith cynnar o fewn Dechrau'n Deg Adolygiad o'r ymarferiad yng ngweithrediad yr elfen cymorth datblygiad iaith cynnar o fewn Dechrau'n Deg | LLYW.CYMRU
- Llywodraeth Cymru (2017) Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg Cymraeg 2050
- Llywodraeth Cymru (2020) Rhaglen Trawsnewid y System Anghenion Dysgu Ychwanegol (Llywodraeth Cymru, 2020)
- Llywodraeth Cymru (2020) Siarad gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu https://www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi-cynllun-cyflawni-ar-gyfer-lleferydd-iaith-chyfathrebu
- Llywodraeth Cymru (2021) Adnodd llwybr hyfforddi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan
- Llywodraeth Cymru (2021) Y Cytundeb Cydweithio: 2021
- Llywodraeth Cymru (2022) Adolygiad o sgrinio iaith gynnar yn addas ar gyfer plant yng Nghymru o enedigaeth hyd at 5 mlwydd oed. Adolygiad o Sgrinio

Iaith Gynnar yn Addas ar gyfer Plant yng Nghymru o Enedigaeth hyd at 5 mlwydd oed (llyw.cymru)

- Llywodraeth Cymru (2022) Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Llywodraeth Cymru (2022) Deilliannau a chanllawiau lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Llywodraeth Cymru (2023) Adolygiad Ymyrraeth Cymru (WiRE)
- Llywodraeth Cymru (2023) Canlyniadau cyfrifiad ysgolion Cymru
- Llywodraeth Cymru, (2022) Ehangu'r Ddarpariaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar yn raddol https://www.llyw.cymru/ehangur-ddarpariaeth-ar-gyfer-y-blynyddoedd-cynnar-yn-raddol
- Llywodraeth y DU (2021) The Best Start for Life The_best_start_for_life_a_vision_for_the_1_001_critical_days.pdf (publishing.service.gov.uk)
- Masek, L. R., Weiss, S. M., McMillan, B. T. M., Paterson, S. J., Golinkoff, R. M., & Hirsh-Pasek, K. (2023). Contingent conversations build more than language: How communicative interactions in toddlerhood relate to preschool executive function skills. *Developmental Science*, 26, e13338. https://doi.org/10.1111/desc.13338
- Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)
- National Literacy Trust (2023) Children and young people's book ownership in 2023: a 10 year retrospective Microsoft Word - Book ownership in 2023 (final).docx (cdn.ngo)

  of primary school-aged children raised in an area of pronounced social
- RCSLT (2017) Information on Supervision
- RCSLT, (2018) Bilingualism Guidance
- Roulstone, Law, Clegg a Peters (2011) Investigating the role of language in children's early educational outcomes. Yr Adran Addysg. (PDF) Investigating the Role of Language in Children's Early Educational Outcomes (researchgate.net)

- Safonau HCPC (2023) ar gyfer hyfedredd therapyddion lleferydd ac iaith Speech and language therapists | (hpc-uk.org)
- Speech and Language UK (2011) Speech, language and communication needs: Needs assessment tool (speechandlanguage.org.uk)
- Speech and Language UK (2022) 1.7 Million Young Futures 1.7 million young futures (speechandlanguage.org.uk)
- Sylva, K., Melhuish, E., Sammons,P.,Sira j- Blatchford,I., Taggart,B (2004) Effective Preschool Provision: Institute of Education Effective Provision of Preschool Education study
- Tamis-LeMonda, C.S., Bornstein, M.H. a Baumwell, L.(2001) Maternal responsiveness and children's achievement of language milestones. Child Development, 72 (3), 748 -767
- The Bercow Report: A Review of services for Children and Young People with Speech, Language and Communication needs' (Crown, 2008) Bercow Review (2008) 7771-dcsf-bercow_Redacted.pdf (ioe.ac.uk)
- The Bercow: 10 years on (Y Goron, 2018) Bercow: 10 Years on (2018) 337644-ICAN-Bercow-Report-WEB.pdf (bercow10yearson.com)
- Westman M., Korkman M., Mickos A., Byring R. (2008) Language profiles of monolingual and bilingual finnish preschool children at risk for language impairment'. International Journal of Language and Communication Disorders. 43 (6), 699-711
- Y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Anawsterau Lleferydd ac Iaith (2013). Y cysylltiadau rhwng anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac anfantais gymdeithasol. www.rcslt.org/wp-content/uploads/media/Project/RCSLT/appg-report-feb-2013.pdf
- Y Panel Arbenigol Rhyngwladol ar Leferydd Plant Amlieithog (2012). Multilingual children with speech sound disorders: Papur safbwynt. Bathurst, NSW, Awstralia: Yr Athrofa Ymchwil ar gyfer Ymarfer, Dysgu ac Addysg Broffesiynol (RIPPLE), Prifysgol Charles Sturt.

- Zimmerman F., Gilkerson J., Richards, JA Chrisakis, D A., Xu, D, Gray, S ac Yapanel .U (2009) Teaching by listening: the importance of adult child conversations to language development. Pediatrics, 124 (1): 342 - 9